# Dysgu Proffesiynol | Professional Learning

Mehefin 2023

## Dysgu Proffesiynol – e-sgol

Mae e-sgol wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i'r athrawon sy'n cyflwyno cwrs e-sgol. I gefnogi ysgolion ac athrawon, bydd e-sgol yn;

- Cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i athrawon e-sgol unigol. Gellir hwyluso'r sesiynau hyn yn rhithwir neu drwy sesiynau wyneb yn wyneb;
- Rhannu adnodd dysgu proffesiynol i athrawon e-sgol ei gwblhau - https://hwb.gov.wales/go/mhlch4. Bydd rhestr chwarae Hwb yn caniatáu i ysgolion unigol ac e-sgol olrhain lefelau ymgysylltu;
- Cyfathrebu gyda'r athrawon e-sgol yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael eu darparu;
- Creu MS Teams ar gyfer athrawon e-sgol, gyda'r nod o rannu gwybodaeth ac arweiniad perthnasol i ymarferwyr.

## Datblygiad Proffesiynol i athrawon e-sgol

Mae athrawon sy'n cyflwyno cwrs e-sgol i fyfyrwyr o'u hysgol eu hunain ac i fyfyrwyr o ganolfannau eraill yn hanfodol i lwyddiant e-sgol. Anogir athrawon sy'n cyflwyno cyrsiau e-sgol i;

- Adnabod cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol trwy ddefnyddio’r ‘Safonau Proffesiynol’ i adlewyrchu a gwella arfer;
- Mynd ati i ddilyn a datblygu eu taith ddysgu broffesiynol gyda'r nod o ddatblygu meysydd/elfennau o'u haddysgu;
- Cymryd perchnogaeth o'u harfer eu hunain wrth gyflwyno cwrs e-sgol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.
- Myfyrio'n rheolaidd ar eu haddysgu o ran y safonau proffesiynol, a cheisio cefnogaeth gan eraill, gan gynnwys staff e-sgol;
- Gwneud defnydd cadarnhaol o'r amser a neilltuwyd ar gyfer dysgu proffesiynol.




Hwb – National approach to professional learning

## Cymunedau Dysgu Proffesiynol

Wrth ddatblygu CDP i gefnogi athrawon sy'n cyflwyno'u cwrs, bydd e-sgol yn;

- cysylltu ag ysgolion sydd â diddordeb, o bob rhan o Gymru, a gwahodd ymarferwyr i ymaelodi i'r gymuned dysgu proffesiynol;
- trefnu cyfarfodydd bob tymor, yn rhithiol a/neu'n wyneb wrth wyneb, gyda phwyntiau gweithredu yn cael eu datblygu yn ystod y cyfarfodydd;
- annog yr ymarferwyr i ddatblygu ffyrdd arloesol pan maent yn cyflwyno eu gwersi trwy ddull dysgu cyfunol / hybrid;
- cymryd rhan a rhannu'r gwaith maent wedi'i gyflawni yng nghynhadledd e-sgol

Mae modd cael mynediad at lyfrgell adnoddau e-sgol ar ein gwefan yma:

https://e-sgol.cymru/

a dilyn y ddolen "Top Tips"